



*Olion Oes yr Efydd ym Meillionydd, Rhiw*

## Olion yr Oesau Cynnar yn Llŷn

Mae'r arfau cerrig a ddarganfyddwyd ar yr Eifl a manau eraill yn Llŷn ac sydd wedi'u dyddio o'r Oes Fesolithig yn brawf fod pobl yn byw yma rhwng 8,000 a 4,000 CC. Dyna'r bobl gynharaf a thua 3,000 CC roedd bobl yn cloddio am gerrig i wneud arfau ar lethrau Mynydd Rhiw (SH 23402990). Roedd yr un datblygiad i'w weld ledled Ewrop mewn cyfnod pan oedd dyn yn newid o fod yn heliwr i fod yn amaethwr.

Yn yr oes hon cafodd cromlechi porth mawrion eu codi, sydd i'w gweld yn Llŷn a rhai tebyg ar hyd yr arfordir gorllewinol o Gernyw a throsodd i Iwerddon. Mae'r gromlech Coeten Arthur, Cefnamwlch yn enghraifft dda.

Yn gynnar yn Oes yr Efydd (2500-1500 CC) codwyd y meini hirion sy'n gyffredin yn Llŷn. Dyfalu a wnawn pam y cafodd y meini talsyth eu codi yn y fan ble maent. Bellach maent yng nghanol caeau ac mewn waliau neu i fod yn gilbyst adwyon. Efallai fod rhai wedi'u symud o'u safleoedd gwreiddiol am ryw reswm.

Roedd bobl Oes yr Efydd yn amlogi'r meirw a'u claddu dan garneddi, yn aml ar gopaon brynau fel ar Garnguwch a manau eraill lle mae'r elfen 'carn' yn ymddangos yn yr enw.

Roedd copaon yn drigfannau arallfydol, yn fannau hudolus ac arswydus. Yma y cai pennaeth y llwyth ei gladdu.

Roedd y copaon a'r ucheldir yn bwysig i amaethwyr y cyfnod nesaf – Oes yr Haearn (750CC – 43 AD). Yma cododd rhain eu bryngaeau wedi'i amgylchynu â ffosydd, cloddiau cerrig, neu goed a phridd er mwyn gwarchod ac amddiffyn eu teuluoedd a'u hanifeiliaid.

Mae caer Garn Fadryn ar gopa Garn Fadryn ond ym Mhorthdinlaen mae olion caer arfordirol o'r un cyfnod.

Tybed fyddai'r pererinion yn ymweld â'r olion cyntefig neu yn eu hanwybyddu oherwydd eu cysylltiadau 'paganaid'?

Cafodd cytiau crynion eu codi'n ddiweddar yn Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun fel rhan o Fenter Gweledigaethol Cymdeithasol.



## Cromlechi



*Cromlech Bachwen, Clynnog Fawr*

Ar dir Cefnamwlch, Tudweiliog mae Coeten Arthur (SH 23003450). Mae'n gromlech borth fel un ym Machwen, Clynnog Fawr a gafodd eu codi yn Llŷn yn yr Oes Neolithig Gynnar (hyd at 4,000 CC). Beddrodau ydynt mewn lleoedd amlwg, ar godiad tir, neu mewn llecyn lle mae golygfa glir o fynydd, neu mewn man amlwg ar yr arfordir.

Tybed fyddai'r pererinion ar eu taith i Ynys Enlli yn cymryd unrhyw sylw ohonynt?

Codwyd hwy am iddi ddod yn arferiad i gladdu'r meirw yn dorfol a chladdu'r esgyrn neu eu hamlosgi. Byddai claddu'r meirw fel hyn yn rhyddhau'r ysbryd ac yn gyfle i goffâu teuluoedd ac i anrhydeddu cyndeidiau. Mae'n debygol iawn hefyd y cynhelid seremonïau o gwmpas y cromlechi i anrhydeddu'r duwiau neu i ddatlu arwyddocâd troad y rhod a digwyddiadau arwyddocaol yr almanac. Chwaraeai seryddiaeth yn ogystal ran amlwg ym mywydau'r trigolion.

Mae sut y symudwyd y meini a'u codi yn ddirgelwch, a hynny hyd yn oed ganrifoedd cyn codi pyramidiau'r Aifft. Y safle a gâi ei ddethol ac nid lleoliad y cerrig benderfynai lle codid y gromlech. Mae'r penllechi anferth yn pwysu o leiaf 25 tonnall a champ enfawr oedd eu symud hwy a'r meini eraill gryn bellter. Credir bod y cromlechi wedi'i codi ganrifoedd cyn iddynt ddod yn gladdfeydd.

I ychwanegu at y dirgelwch sylweddol bod echelin hwyaf y mwyafrif ohonynt yn rhedeg o'r gogledd i'r de a'r penllech yn goleddu 23½°, sef ongl goleddiad y ddaear mewn perthynas â'r haul. Pa arwyddocâd sydd i hynny?

Dim ond y meini mawrion welir bellach yn Llŷn; collwyd y pridd a'r cerrig oedd yn eu gorchuddio. Gallwn leoli'r siambr gladdu o dan y penllech a'r fynedfa rhwng dwy o'r cerrig sydd ar eu sefyll. Y fynedfa hon sydd yn rhoi iddi'r enw 'cromlech borth'.

## Coeten Arthur, Cefnamwlch (SH 230345)



**Cyfarwyddiadau: Dilyn B4417 o Dudweiliog (2.25km) a throï yn Beudy Bigyn ar odre Mynydd Cefnamwlch am Sarn Mellteyrn. Ymhen 0.5km gwelir y gromlech ar y dde mewn cae.**

Cromlech drawiadol yng Nghae Coeten Arthur (1841) a Chae'r Gromlech (2009) ar odre Mynydd Cefnamwlch. Awgrymir iddi gael ei chodi oherwydd ei safle amlwg mewn perthynas â Garn Fadryn.

Credir i'r Brenin Arthur daflu coeten o ben Garn Fadryn ac iddi lanio yn y fan hyn. Dyna'r penllech.

Ai'r penllech hwn roddodd ei enw i'r plwyf 'Penllech'?

Dywedir i gerrig y gromlech gael eu symud unwaith ac i fraîn grawcian yn ddi-baid hyd nes y dychwelwyd hwy. Ym Mhlas ym Mhenllech mae maen hir ac arno siâp cwpan. Tybed oes cysylltiad rhyngddynt? A symudwyd y maen hir oddi yma?

## Meini Hirion



*Maen Hir, Meillionen, Boduan*





Mae dyddio'r meini'n parhau'n ddirgelwch ond mae cytundeb iddynt gael eu codi yn gynnar yn Oes yr Efydd (2500-1500 CC). Dyfalu a wnawn pam y cafodd y meini urddasol eu codi yn y fan ble maent. Bellach maent yng nghanol caeau, wedi eu gosod mewn waliau neu i fod yn gilbyst adwyon. Dydi hi chwaith ddim yn dilyn mai maen hir yw pob carreg sy'n ymddangos felly, ac efallai fod rhai wedi'u symud am ryw reswm o'u safleoedd gwreiddiol.

Oes arwyddocâd i'w safleoedd mewn perthynas â'r mynyddoedd cyfagos megis Garn Fadryn neu Fynydd Rhiw – manau sanctaidd yn yr Hen Oes? Ai cerrig beddi ydynt i arwyr neu benaethiaid llwythi? A gawsant eu defnyddio mewn seremonïau 'paganaudd' a bod o bosib elfen Gristnogol wedi'i ychwanegu'n ddiweddarach? Ai eu codi i'w defnyddio mewn astudiaethau seryddol oedd y bwriad? Oes arwyddocâd i'w safleoedd mewn perthynas â'r tymhorau, codiad yr haul ar Alban Hefin (hirddydd haf) neu gylchdro'r lleuad? Neu ai mynegbyst i gyfeirio teithwyr yn ystod y canrifoedd cynnar oeddent? Pwy a wŷr.

Nid ar fympwy y cawsant hwy eu codi ar y safleoedd presennol gan mai nid ar chwarae bach y cawsant eu llusgo gryn bellter yno. Cawsant eu symud i'w safleoedd presennol gyda'r bwriad, mae'n bur debyg, o'u troi'n fangre Gristnogol.

Dyma ble mae meini hirion yr ardal -

- **Maen Hir Gwynus**, Pistyll (SH 346421)
- **Maen Hir Penfras**, Llwyndyrys (SH 380417)
- **Maen Hir Nant y Gledrydd**, Madryn (SH 29353650)
- **Maen Hir Sarn Mellteyrn** (SH 23713284)
- **Maen Hir Plas ym Mhenllech**, Penllech (SH 22253452)
- **Maen Hir Llangwnnadr** (SH 208325)
- **Maen Hir Tan y Foel, Rhiw** (SH 22612767)
- **Maen Hir Pandy Saethon**, Nanhoron (SH 28803230)
- **Maen Hir Bodegroes**, Efailnewydd (SH 35783536)
- **Meini Hirion Tir Gwyn**, Llannor (SH 34423913)
- **Maen Hir Glan Afon**, Abererch (SH 392360)
- **Maen Hir y Gwystl**, Y Ffôr (SH40003901)

## Meini Hirion Lleol



### Maen Hir Nant y Gledrydd (SH 29353650)

*Cyfarwyddiadau: Ar y ffordd sy'n arwain o Rydyclfady i Nanhoron (B4415) rhaid dal i'r dde i gyfeiriad Madryn a Dinas. Dal i'r dde eto ymhen 2km ac yna i'r chwith. Gwelir mewn cae ar y dde ger Gefail Gledrydd.*

Mae'n faen trawiadol 2.2m o daldra ynghanol cae. Mae'n union mewn llinell rhwng Garn Fadryn a Garn Boduan. Tybed oes unrhyw arwyddocâd yn hyn?

### Maen Hir Sarn Mellteyrn (SH 23733284)

*Cyfarwyddiadau: Ar y dde ar ben yr allt ar y ffordd o Sarn Meyllteyrn i Dudweiliog gwelir adfeilion Eglwys Sarn Mellteyrn. Mae'r maen hir yn y fynwent.*

Er bod astudiaethau diweddar yn cyfeirio ato fel maen hir ni wneir hynny yn Caernarvonshire: West (CBHC). Mae'n faen 2.3m o daldra â Garn Fadryn yn gefndir iddo. Mae'n agos at gromlech Coeten Arthur (SH23003450). Tybed oes arwyddocâd yn hynny a bod cysylltiad rhwng y safle â Garn Fadryn? Gallasai fod wedi'i symud yma o fan arall.

Mae ynddo dwll a ddefnyddid i hongian llusern.



## Carneddi Llŷn



*Moel Carnguwch a Thre'r Ceiri (chwith)*

Erbyn diwedd yr Oes Neolithig daeth Pobl y Biceri (2800 – 1800CC) i fyw ym Mhrydain. Prin yw'r dystiolaeth o'r cyfnod hwn ond mae bedd cist, un ag ochrau carreg iddo wedi'i ddarganfod, yn Llithfaen. Roedd corff dyn tua 1.8m o daldra yn gorwedd ar ei ochr dde ynddo yn ogystal â bicer.

Ond erbyn Oes yr Efydd Gynnar yr arferiad oedd amlosgi'r meirw a'u claddu dan garneddi, yn aml ar gopaon brynau fel rhai Llŷn. Câl carnedd syml o gerrig ei chodi a chylch o gerrig mwy eu rhoi o gwmpas ei godre.

Maent yn amrywio yn eu maint a'r fwyaf yn Llŷn yw'r un ar Foel Carnguwch. (SH 35004290). Efallai y bu tŵr o gerrig arni'n wreiddiol, ond i hwnnw gael ei ddinistrio. Gyda'r cerrig arni byddai'r safle'n fwy trawiadol fyth.

Byddai'r trigolion lleol yn tyrru yma ar Nos Galan Gaea i danio coelcerth ond rhaid fyddai rhuthro adref cyn i'r Hwch Ddu Gwta eu dal.

Credai'r brodorion fod y copaon yn drigfannau i'r goruwchnaturiol, yn hudolus ac yn arswydus. Câl penaethiaid y llwyth eu hanrhydeddu trwy gael eu claddu ynddynt a hawdd credu y byddai'r garnedd yn gofodail ardderchog iddynt. Yn wir o'r fan honno gallent barhau i arglwyddiaethu. Gallent fod hefyd yn gofodail i'w traddodiadau neu i nodi eu tiriogaeth a'u hawdurdod.

Mae sawl carnedd yn yr ardal ond maent bellach mewn cyflwr gwael. Maent i'w gweld ar gopa'r Eifl, (SH 36504470), Mynydd Rhiw (SH 23152975), a rhai llai amlwg bellach ar Garn Fadryn, Tre'r Ceiri, ac ar Foel Gron, Mynytho. Caent eu hadnabod fel Carnedd y Brenin Engan – copa amlycaf o fewn ei diriogaeth.

Mae carnedd hefyd ger Castell Odo ar Fynydd yr Ystum o'r enw Barclodiad y Gawres (SH 18702850).

Mae'r elfenau 'carn' a 'carnedd' yn amlwg mewn enwau lleoedd yn Llŷn, e.e. Carn Sethon a Charneddol ym Mynytho.

## Bryngegydd Oes yr Haearn



*Creigiau Gwinau, Rhiw*

Yn ardal Porthdinllaen mae dwy fryngaer o gryn bwys a'r ddwy'n wahanol i'w gilydd. Ar benrhyn Porthdinllaen mae caer arfordirol (SH 27504160) wedi'i chodi mewn man arbennig iawn gyda golygfa eang i sawl cyfeiriad. Mae caer arfordirol arall ar arfordir de Llŷn, sef Castell Ysgubor Hen, Cilan (SH 30372470) mewn sefyllfa lawn mor drawiadol.

6 km i'r de ac yn amlwg iawn o Borthdinllaen mae Garn Fadryn. Ar ei chop mae un o'n bryngegydd arbennig (SH 27903530).

Ceir amryw o'r rhain yn Llŷn gan gynnwys y rhai sydd ar Dre'r Ceiri, Yr Eifl (SH 37304460) Garn Boduan (SH 31203940), Castell Odo (SH 18702850) ar Fynydd yr Ystum a Chreigiau Gwinau (SH 22862752), ar Fynydd Graig, Rhiw. Mae Penhengaer (SH32303147) a Nant y Castell (SH 32153145) o bobtu'r A499, fel pe baent yn gwarchod y dyffryn rhwng Llanbedrog ac Abersoch hefyd yn fryngegydd Oes yr Haearn.

Y gred gyffredinol ydi bod y Celtiaid wedi sefydlu yng Nghymru yn ystod Oes yr Haearn, 750 CC-43 AD, a hwy fu'n gyfrifol am godi'r bryngegydd sydd mor gyffredin yn Llŷn. Bellach mae rhai'n credu bod ffurf ar yr iaith Frythoneg yn cael ei siarad cyn hynny a bod pobl Oes yr Efydd wedi dechrau codi bryngegydd. Er gwaethaf yr enw dydyn nhw i gyd ddim ar gopaon brynau.

Amaethwyr oedd pobl Oes yr Haearn ac mae'n amlwg bod gwarchod teuluoedd ac anifeiliaid yn cael blaenoriaeth gan y cynllunwyr.

O gwmpas y ceirydd mae ffos, cloddiau cerrig, a choed a phridd hefyd o dro i dro – rhai sengl neu ddwbl.

Mae tystiolaeth bod ceirydd yn cael eu hadnewyddu a'u hadfer mewn gwahanol gyfnodau ac felly bod adeiladwaith hŷn i'w weld o dan y gaer sydd wedi'i hadnewyddu.





Roedd waliau'r cytiau crwn yn y gorllewin wedi'u codi â cherrig ac felly hefyd yn Llŷn. Byddai'r coed i gynnal y to yn gorffwys ar y waliau a chaent eu toi â gwellt, brwyn neu dywyrch. Pridd wedi caledu fyddai'r llawr a hawdd credu y byddai brwyn wedi'u taenu arno a byddai sgriniau wedi'u codi i wahanu'r llefydd byw oddi wrth y gwelyau.

I gymhlethu pethau'n bellach efallai fod amddiffynfeydd ac adeiladau wedi'u codi ar ben ceirydd Oes yr Haearn yn yr Oesoedd Tywyll (400 – 900 AD). Dyma'r cyfnod pan gafodd cenedl y Cymry ei ffurfio ac esblygodd y Gymraeg o'r Frythoneg.

Cafodd cytiau crwn eu codi'n ddiweddar yn Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun fel rhan o Brosiect Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun – Menter Gweledigaethol Cymdeithasol.

## Garn Fadryn (SH 279353)



O'r gaer tuag at geyrydd eraill ar Garn Boduan a Thre'r Ceiri

**Cyfarwyddiadau: I fynd ato aed i bentref Garn Fadryn (SH27803452) a dilyn llwybr gydag ochr y capel.**

Mae Garn Fadryn yn sefyll yn urddasol yng nghanol Llŷn. O'i gopa mae golygfeydd ysblennydd o Lŷn gyfan a thu hwn.

Ychydig yn is na'r copa mae caer o Oes yr Haearn wedi'i chodi mewn dau gyfnod, tua 300CC a 100CC. 'Roedd y gaer gyntaf godwyd dipyn yn llai ei maint a'r muriau felly o fewn gwarchodfa'r ail gaer. Gwelir casgliad amlwg iawn o gytaiau crynion a fewn muriau sydd bellach wedi dadfeilio'n sylweddol.

Codwyd caer ddiweddarach yma yn y 12fedG. Pan ymwelodd Gerallt Gymro â Nefyn yn 1188 cyfeiria at gastell oedd wedi'i godi yma'n ddiweddar oedd yn eiddo i feibion Owain Gwynedd.

Yn ogystal â hyn mae olion carnedd gladdu yn agos i'r copa.

Ar y gwastad tua'r gogledd mae Ffynnon y Brenin (SH 27903530) – ffynnon naturiol feddyginiaethol a Bwrdd y Brenin (SH 28003535). Y brenin wrth gwrs yw'r Brenin Arthur.

## Caer Arfordirol Porthdinllaen (SH 275416)



**Cyfarwyddiadau: Unai cerdded ar hyd traeth Porthdinllaen a dingo'r llwybr at y Gwrs Golff Nefyn o dafant Tŷ Coch, neu gerdded i fyny o faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Morfa Nefyn (SH 28154065) ac ar hyd y cwrs golff.**

Ar Drwyn Porthdinllaen, ar y cwrs golff y lleolwyd y gaer arfordirol hon mewn man bron wedi'i amgylchynu gan y môr. Fe'i codwyd yn gynnar yn Oes yr Haearn. 'Roedd o'i chwmpas glawdd a thair ffos hyd at 3m mewn dyfnder. Cadarnhawyd hyn pan gloddwyd yno yn 2011.

Difethwyd y safle pan wnaed ffordd i lawr i'r traeth.

## Dilynwch y Stori



Darganfyddwch fwy am fywyd cynhanesyddol trwy ymweld â Charn Fadryn – Gwelwch weddillion bryngaer eang o'r Oes Haearn a chastell o'r 12eg ganrif.